

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Fawrth 2022

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 10fed o Chwefror 2022
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Cofnodion cyfarfod IBC 23/02/2022
 1. Nawdd Clwb Garnedd
 - iii. Cais Nawdd Ambiwlans Awyr Plant Cymru – angen gwybodaeth
 - iv. Taliadau ers hynny
 1. Peter Burgess am agor a chlirio allan manhole Canolfan Glasinfryn
 2. Delwedd Lletya a chynnal a chadw y Wefan
 3. Gamlins x 2 Gwaith Canolfan Glasinfryn a Gwaith Ysgol y faenol
 4. Unllais Cymru
 5. Costau'r Clerc
 6. Cyngor Gwynedd – bocs trydannol i Diffib Glasinfryn
 7. Dwr Cymru Carffosiaeth Glasinfryn
- Nawdd
 - 1 Clwb Arlunio Glasinfryn
 - 2 Cylch Glasinfryn
 - 3 Ioga Glasinfryn
7. Logo newydd
8. Cynllunio

Dim cais wedi ei dderbyn ers y cyfarfod dwaetha
9. Materion y Clerc
 - Diffibs Diweddariad
 - Septic Tanc Diweddariad
 - Drysau Canolfan Glasinfryn Diweddariad
 - Traelia Cyngorwyr 2021-22
 - Apel Eisteddfod Boduan 2023
 - Graddfeydd Cyflog NALC o Ebrill 2021
 - Etholiad Mai 2022
10. Materion y Cyngorwyr
 - Cyng M Baines
 - Llwybr Treborth - diweddariad

Cyngor Cymuned Pentir
Cofnodion cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn
Nos Iau 10fed o Chwefror 2022

1. **Presennol:** Cyng D W Jones – Cadeirydd, Cyng D Jones-Morris; Cyng L A James; Cyng E Jones; Cyng J Griffiths a Cyng J Pierce;
Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau** ; Cyng T Anwyl Williams, Cyng B Jones, Cyng M Lynch; Cyng J Lewis; Cyng H Griffiths a'r Cyng M Baines

Cyn symud i faterion y Cyngor datganwyd ein cydymdeimladau fel Cyngor a'r Cyng M Baines oedd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

- 3 Datgan buddiant
Cyng E Jones – J Pierce a L A James yn datgan ei bod yn rhan o bwyllgor y Ganolfan yn Penrhos
- 4 Derbyn cofnodion 13eg o Ionawr 2022
Cyng J Pierce yn cynnig a'r Cyng D W Jones yn eilio eu cywirdeb
- 5 Materion yn codi o'r cofnodion
Ar gais un o'r etholwyr oedd angen cefnogaeth mewn achos ynglwm a Llwybr heibio Neuadd Treborth cytunwyd anfon llythyr cefnogaeth
Goleuadau yr Is-Orsaf Bwrs Pentir
Y Clerc wedi galw yno a chael ar ddeallt fod y lampau ar eu ongl isaf posib i beidio goleuo at i fyny a'u bod yn mae dod ymlaen fel mae golau dydd yn tywyllu tan ddiwedd eu cyfnod gwaith sef 7.00 yr hwyr. Y Clerc hefyd wedi cysylltu a Adran Amgylchedd i ofyn eu barn a rheini hefyd yn cadarnhau yr un ateb
6. Materion ariannol
Mantolen ariannol Rhannwyd y fantolen ar y sgin yn dangos £41,967.26 yn y Cyfrif Cyfredol a £35,040.26 yn y cyfrif Cadw
Taliadau/derbyniadau Cadarnhawyd talu'r taliadau a nodwyd y derbyniadau
- 7 Logo newydd Cyng L A James wedi cysylltu yn ol hefo'r dylunydd yn holi am Bapur Pennawd ag os oedd yn bosib gwneud fidio weddol fyr o waith y Cyngor Nid oedd wedi derbyn ymateb yn ol
- 8 Cynllunio
 - ii. Rhif Cais: C22/0109/25/LL Lleoliad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Gwynedd Ffordd Trwy Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW Bwriad: Lleoli unedau symudol dros dro mewn 2 leoliad ar gyfer defnydd cysylltiedig i'r ysbyty am gyfnod o 2 mlynedd. **Dim Gwrthwynebiad**
 - iii. Rhif Cais : C22/0095/25/CC Lleoliad Parc Menai, Bangor, LL57 4BL
Bwriad : Cais ar gyfer torri a gwneud gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed **Dim Gwrthwynebiad**
- 9 Materion y Clerc
 - I. Diffibs Bocs yn hytrach na polyn wedi ei osod gan Cyngor Gwynedd yn Glasinfryn felly popeth yn barod i'r 2 beiriant gael eu gosod
 - II. Septic Tanc Cwmni A E & A T Lewis yn ymgymeryd a'r gwaith cyfathrebu a Dwr Cymru. Dwr Cymru yn araf iawn yn ymateb
 - III. Drysau Canolfan Glasinfryn Y drysau a'r ffenestri wedi eu archebu ond angen Nodyn yn cydnabod nad yw'r drysau tan yn ddrysau diogelwch. **Clerc i arwyddo**

- IV. Derbyn Rhodd Derbynwyd £500.00 er cof am y Diw Ernest Land tuag at gadw'r fynwent. Derbynwyd a gofyn i'r **Clerc gysylltu'n ol a Mrs Land i ddatgan ein gwerthfawrogiad**
- V. Traelia Cynghorwyr 2021-22 Y Clerc wedi ei anfon at bawb i ddatgan y bydd yn anfon £150 tuag at draelia Cynghorwyr onibai ei fod yn derbyn nodyn ysgrifennedig i ddatgan nad yw Cynghorydd yn dymuno derbyn. **2 wedi gwneud hynny yn barod**
- VI. Ymatebion LleNi35 Ymatebion oedd wedi eu casglu gan y Swyddog Adfywio wedi eu rhannu hefo'r Cynghorwyr a bydd Rhan 2 o'r broses yn cychwyn yn y dyddia nesaf i adnabod blaectoriaethau y cyhoedd
- VII. Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor 'Roedd y gwahoddiad i rhai gymeryd rhan yn y prosiect hwn wedi ei rannu yn electronig. Cytunwyd ei adael yn agored i unrhyw un oedd yn dymuno gwneud hynny i gysylltu a'r Brifysgol
- VIII. Apel Eisteddfod Boduan 2023 Y Clerc wedi derbyn llythyr o Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod Genedlaethol yn holi am gyfraniad tuag at Eisteddfod Boduan. Nodwyd fod y Cynghor wedi trafod hwn rhyw ddwy flynedd yn ol a son am gefnogi Grwp Lleol yn hytrach a bod trafodaeth wedi bod i Wahodd Ardal Pentir hefo Dinas Bangor i gefnogi ymgyrch leol

10 Materion y Cynghorwyr

- Cyng M Lynch **Capel y Fynwent Pentir/Tafarn y Faenol a Llythyr Cefin Roberts**
Trafodwyd y llythyr oedd yn amlinellu cefndir sef dyhead Cefin i gynnal nosweithia yn yr ardal a'i siom o fod y Dafarn lleol wedi cau yn amddifadu'r gymuned o leoliad canolig i gymdeithasu Clerc i ysgrifennu yn ol a'i wahodd i gyfarfod – efallai yn y Capel
- Cyng D Jones Morris **Gwasanaeth Fasciwlwr Betsi Cadwaladr** Mae'r Cynghor wedi datgan eu pryderon ynglyn a symud y gwasanaeth o Ysbyty Gwynedd droeon, ond yn sgil yr adroddiadau diweddar o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ag ymateb siomedig y Gweinidog Iechyd yn Senedd Cymru gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Gweinidog a chopi mewn yr aelodau Seneddol
- Cyng M Baines **Llywbr rhif 4 Glasinfryn** diweddariad Yn absenoldeb y Cyng M Baines eglurwyd fod Cynghor Gwynedd bellach am gychwyn ar y gwaith adnewyddu gwterydd a hefyd am wneud rhywfaint o waith adnewyddu'r trac o'r giat fochyn i'r Ion fawr
- Cyng L A James **Gwaelod allt Faenol** Ymholiad arall ynglyn a beth yn union sy'n digwydd ar y safle yma gan fod tomenydd o dears, coed, carafannau a cynwysyddion anferth ar y safle lle mae'n amlwg fod y perchenog yn cario ymlaen hefo ei fusnes heb ganiatad **Clerc i gysylltu a Gorfodaeth Cynllunio**
- Cyng L A James **Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol** Y swyddog safle o Wynedd wedi cysylltu i ddatgan eu bwriad i symud ymlaen hefo'r rhan nesaf o'r prosiect sef tynny lawr y Ganolfan bresennol yn ystod Mis Mai **Nodwyd y gallai etholiad fod ymlaen yn nechrau Mai** Adroddwyd hefyd fod llawer o waith ceisio dod i gytundeb sut yn union y gellir gwireddu dod a be gytunwyd arno yn y nechrau cynta – sef fod y ganolfan yn hollol arwahan i'r ysgol i weithio gan fod pryderon bellach ynglyn a pryd gall defnyddwyr y ganolfan fynd yno ag oddiyno gan fod yn ysgol yn gwrthod mynediad yn y bore a rhwng 3 a 3.00
Mae'r Cyng L A Jones mewn trafodaethau hefo adran/swyddog Iechyd a Diogelwch y Cynghor **Clerc i drefnu cyfarfod a'n Cyfreithwyr i drafod**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00